Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Dolwerdd**

**Ysgol Gynradd Greenmeadow**
**Craig Road, Greenmeadow**
**Cwmbrân**
**NP44 5YY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

04/05/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:* *psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chylch Meithrin Dolwerdd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Cylch Meithrin Dolwerdd |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y lleoliad bach hwn. Mae ganddynt berthynas agos â'i gilydd ac â'r staff, sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel ac wedi'u gwerthfawrogi. Gall y plant wneud dewisiadau ynglŷn â sut maent yn treulio'u hamser ac maent yn archwilio'r amgylchedd yn hyderus. Mae eu sgiliau annibyniaeth yn datblygu trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau.

Mae'r staff yn gofalu am y plant mewn modd cynnes ac ymatebol. Mae ganddynt gymwysterau priodol ac maent yn adnabod y plant y maent yn gofalu amdanynt yn dda. Maent yn cynnig gweithgareddau hwyliog i'r plant mewn ffordd hamddenol, tra'n parhau i fod yn broffesiynol. Mae angen ymwreiddio rhai gweithdrefnau o fewn arferion ond yn gyffredinol, maent yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn hyrwyddo eu datblygiad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi creu amgylchedd diogel a chroesawgar i'r plant chwarae ac archwilio ynddo. Mae'r amgylchedd yn lân ac yn cynnwys adnoddau wedi' eu cynnal a'u cadw'n dda sy'n briodol ar gyfer oedran a chyfnod datblygiad y plant. Mae asesiadau risg ar waith ond mae angen eu hadolygu a chodwyd dau fater amgylcheddol arall ac aethpwyd i'r afael â nhw yn brydlon.

Ers cofrestru, bu nifer o newidiadau o ran personél ac mae rhai systemau newydd yn y broses o gael eu gweithredu neu eu hymwreiddio. Disgwylir unigolyn cyfrifol newydd ac mae'r person â gofal a'r ymarferydd meithrinfa ill dau yn eithaf newydd yn eu swyddi. Yn ystod yr arolygiad, dirprwyodd yr unigolyn cyfrifol newydd gyfrifoldeb i'r person â gofal, a gymerodd ran lawn yn y broses arolygu. Mae angen adolygu rhai dogfennau a gweithdrefnau. Mae'r arweinwyr wedi ymrwymo i wella arferion er budd y plant. Roedd y rhieni y siaradwyd â nhw yn canmol y gofal y mae eu plant yn ei dderbyn.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Gall y plant wneud dewisiadau ac mae'r staff yn cefnogi hyn yn weithredol. Gallant ddewis eu gweithgareddau yn rhydd neu ymuno â gweithgareddau a arweinir gan oedolion. Mae'r plant yn hyderus i siarad a chyfathrebu eu hanghenion yn eu ffordd eu hunain. Y tu mewn, mae adnoddau'n hawdd i'r plant gael mynediad atynt, sy'n sicrhau bod eu dewisiadau chwarae'n cael eu bodloni. Mae gan y plant lais. Mae eu barn yn bwydo i mewn i'r gweithgareddau a gynigir a gwrandewir ar eu hoffterau a'u casbethau.

Mae'r plant yn hapus ac mae bron pob un wedi ymgartrefu'n dda yn y feithrinfa. Mae ganddynt berthynas gynnes â'r staff ac maent yn mynd atynt yn rhwydd am arweiniad neu gysur. Mae'r plant yn gwneud ffrindiau yn y lleoliad yn unol â'u hoedran a cham datblygu. Maent yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd neu ymysg ei gilydd. Gwelsom y plant yn defnyddio eu dychymyg i 'fynd i'r sinema' gyda'i gilydd tra bod y staff yn annog y defnydd o rifau a lliwiau yn gynnil. Mae'r plant yn gyfarwydd â threfniadau arferol y lleoliad, sy'n gwneud iddynt deimlo'n ddiogel.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd ar gyfer eu hoedran a'u cyfnodau datblygiad. Maent yn dysgu sut i rannu a chymryd eu tro. Er enghraifft, gwelsom y plant yn aros yn amyneddgar am eu tro gyda phaent o liwiau gwahanol. Mae'r plant yn garedig ac yn feddylgar tuag at ei gilydd. Wrth chwarae tu allan, rhedodd plentyn y tu mewn i nôl hances bapur i'w ffrind oedd angen un.  Mae'r plant yn ymwybodol o'r arferion dyddiol ac yn gwybod beth i'w ddisgwyl yn y lleoliad. Maent yn golchi eu dwylo cyn cinio, ac yn mwynhau amser cinio cymdeithasol yn sgwrsio'n hapus gyda'u ffrindiau a'r staff.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae ac yn canolbwyntio ar weithgareddau am gyfnod priodol o amser. Gallant benderfynu chwarae ar eu pen eu hunain neu gydag eraill. Er enghraifft, gwelsom un plentyn yn hapus i chwarae'n annibynnol, gan adeiladu siâp gyda blociau bach. Roedd plant eraill yn chwarae 'fferm' gyda'i gilydd. Yn ystod amser chwarae tu allan, roedd y plant yn hapus i ddewis pa offeryn cerdd yr oeddent am ei ddefnyddio tra'n canu'n frwdfrydig gyda ffrindiau a'r staff.

Caiff y plant gyfleoedd addas i fod yn annibynnol. Mae rhai plant yn mynd i'r toiled eu hunain, yn golchi eu dwylo eu hunain ac yn ddiweddar, maent wedi dechrau gwagio eu gwastraff bwyd eu hunain i mewn i flwch. Gall llawer o'r plant gyrchu adnoddau o flychau

storio, ac maent yn deall y drefn o helpu i dacluso pan fydd gweithgareddau'n newid. Gwelsom y plant yn cael eu hannog i agor eu pecyn bwyd eu hunain, gyda'r staff yn cynnig cymorth yn ôl yr angen.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r staff yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach yn gyffredinol. Mae gan y staff y gwnaethom siarad â nhw rywfaint o wybodaeth am weithdrefnau diogelu'r lleoliad. Gwnaethant ddweud wrthym y byddent yn hysbysu eu rheolwr ar unwaith am unrhyw bryderon amddiffyn plant, ond nid oeddent yn hyderus ynghylch adrodd am bryderon yn annibynnol o reolwr. Dywedodd y staff wrthym mai ychydig iawn o ddamweiniau/digwyddiadau sydd wedi digwydd ers i'r lleoliad agor; roedd y pedwar cofnod a welsom yn briodol ac wedi'u llofnodi gan rieni. Oherwydd y nifer isel o faterion hyd yma, nid oes system i werthuso damweiniau a digwyddiadau wedi ei sefydlu eto.

Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo'n aml ac mae'r staff yn ofalus i ddiheintio eu dwylo'n aml, er enghraifft ar ôl sychu trwynau'r plant. Mae'r plant yn dod â'u pecynnau bwyd eu hunain, ac mae'r byrbrydau a ddarperir yn y lleoliad yn iach ac yn faethlon. Mae'r staff yn sgwrsio â'r plant wrth iddynt fwyta ac yn sicrhau bod amser bwyd yn brofiad cadarnhaol, cymdeithasol. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd addas i'r plant fod yn egnïol a chael awyr iach, gyda mynediad rheolaidd i'r ardal chwarae tu allan.

Mae'r staff yn rhyngweithio â'r plant mewn modd caredig a gofalgar. Maent yn gyson yn eu hagwedd ac yn ystyriol o oedran a chamau datblygu'r plant wrth fynd ati i reoli ymddygiad. Mae'r staff yn defnyddio llais tawel i dynnu sylw'r plant sydd wedi cynhyrfu, ac yn eu canmol am eu hymdrechion. Maent yn darparu cysur i'r plant ansicr, ac mae'r plant yn mynd at y staff yn rhwydd i gael cysur. Mae'r staff yn fodelau rôl cadarnhaol i'r plant ac yn amlwg yn mwynhau eu swyddi.

Mae'r staff yn cefnogi dychymyg a dysgu'r plant yn briodol; Maent yn chwarae ochr yn ochr yn gyfeillgar, gan fodelu sgiliau cymdeithasol ac iaith briodol. Mae'r staff yn annog chwilfrydedd y plant, gan adael i'w diddordebau arwain y chwarae a'r dysgu. Pan ddywedodd plentyn fod angen trin gwallt y doliau, roedd aelod o staff yn naturiol yn dechrau chwarae 'trin gwallt', gyda grŵp bach o'r plant. Yn yr un modd, awgrymodd y plant gemau yn ystod chwarae tu allan yr oedd y staff yn hapus iawn i'w hwyluso neu i ymuno â nhw. Creodd y gweithgareddau hyn hwyl a chwerthin i bawb a gymerodd ran. Mae cynllunio ysgrifenedig sylfaenol iawn ar waith, ond mae'r person â gofal yn y broses o ddatblygu system ar gyfer cynllunio ac arsylwi. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu hoffterau; Mae arsylwi ac olrhain datblygiad ar gyfer plant perthnasol yn y broses o gael ei drosglwyddo i system well, y bydd angen ei hymwreiddio. Nid oes polisi a system gweithiwr allweddol ar waith ar hyn o bryd. Clywsom swm cyson o Gymraeg sgyrsiol sylfaenol yn ystod yr arolygiad.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Lleolir y lleoliad o fewn ystafell dosbarth ysgol. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn saff i'r plant. Gofynnir i bob ymwelydd fewngofnodi i'r lleoliad. Mae asesiadau risg addas ar waith,

y mae angen eu hadolygu bellach. Cynhelir gwiriadau diogelwch dyddiol o'r mannau a ddefnyddir gan y plant ond gwnaethom nodi nad oedd tymheredd ystafelloedd yn cael eu monitro a'u cofnodi. Mae hyn wedi'i gywiro ers hynny. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd yr arweinwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal. Dywedodd y person â gofal wrthym fod y plant a'r staff yn cymryd rhan mewn ymarferion tân yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae ymarferion gadael mewn argyfwng yn ofyniad rheoliadol ar gyfer y lleoliad hwn yn benodol. Nid ydym wedi cymryd unrhyw gamau ar yr achlysur hwn gan fod yr unigolyn cyfrifol wedi cywiro hyn yn brydlon. Cynhelir gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer yr adeilad a'r offer yn ôl yr angen.

Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'n darparu man croesawgar, cryno, cyfeillgar i'r plant. Mae gan y plant ddigonedd o ofod i chwarae a dysgu mewn un ystafell ganolog. Mae toiledau'r plant yn hygyrch ac yn lân. Mae gwaith celf y plant yn cael ei arddangos o amgylch yr ystafell ac mae pegiau cotiau wedi'u henwi gan greu ymdeimlad o berthyn i'r plant. Mae man tu allan caeedig, y mae’r plant sy'n mynychu'r ysgol yn cerdded drwyddo ar adegau penodol yn ystod y dydd i fynd i mewn ac allan o adeiladau'r ysgol. Nid yw hyn yn effeithio ar chwarae'r plant. Mae'r rhan fwyaf o'r adnoddau tu allan yn cael eu cymryd i mewn ac allan trwy gydol y dydd gan nad oes gan y lleoliad le storio tu allan. Dywedodd y person â gofal wrthym yr hoffai gynyddu'r adnoddau tu allan a threfnu storfa tu allan, os/pan fydd arian yn caniatáu.

Mae'r adnoddau yn addas i oedran y plant ac o ansawdd da. Gall y plant gael mynediad rhwydd at y rhan fwyaf o eitemau, sy'n cefnogi eu hannibyniaeth gynyddol. Mae teganau ac offer yn cael eu glanhau'n rheolaidd, ac mae'r holl staff yn gyfrifol am sicrhau hylendid priodol trwy gydol y dydd. Mae gan y lleoliad ddodrefn addas megis byrddau, cadeiriau a llenni a deunyddiau maint plentyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn y lleoliad hwn yn ddigonol, ac mae angen rhai gwelliannau. Bu sawl newid o ran personél o fewn cyfnod byr ers cofrestru. Mae hyn yn cynnwys person â gofal cymharol newydd ac unigolyn cyfrifol newydd. Ni welsom unrhyw effaith amlwg o hyn ar ofal y plant, ond mae angen cryfhau neu atgyfnerthu rhai systemau a gwaith papur. Mae datganiad o ddiben ar waith sy'n rhoi gwybodaeth bwysig i'r rhieni am sut y cynhelir y lleoliad. Nid oes system ar hyn o bryd i gofnodi pryderon o natur amddiffyn plant neu anafiadau sy'n bodoli eisoes, er i'r person â gofal ddweud wrthym nad oedd angen y templedi hyn eto. Mae nifer o bolisïau a gweithdrefnau addas ar waith, ac mae angen adolygu rhai ohonynt, gan nad oedd y dyddiad adolygu diwethaf yn glir. Mae polisi ar waith ynglŷn â phlant ag anghenion ychwanegol, ond nid yw Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd Cymru 2021 wedi’i adlewyrchu eto. Mae'r person â gofal wedi mynychu hyfforddiant ar y cod newydd hwn.

Mae ffeiliau staff yn cynnwys peth gwybodaeth bwysig, er nad oedd yr holl ddogfennau perthnasol ar gael yn ystod yr arolygiad. Ers hynny, mae'r arweinwyr wedi cadarnhau bod yr holl wybodaeth ofynnol bellach yn y ffeiliau yn y lleoliad. Mae gan bob aelod o staff wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae gan rai staff hyfforddiant gorfodol cyfoes, ond mae angen adnewyddu peth hyfforddiant. Mae hyfforddiant diogelu lefel un ar gyfer aelod o staff wedi dod i ben, ond mae hyn wedi’i gywiro ers hynny. Mae'r person â gofal wedi cwblhau hyfforddiant diogelu sylfaenol ond ers ymgymryd â rôl y person â gofal, nid yw eto wedi cwblhau hyfforddiant lefel uwch sy'n adlewyrchu lefel y

cyfrifoldeb. Mae'r person â gofal a'r ymarferydd meithrinfa parhaol wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig. Ar hyn o bryd, dim ond y person â gofal sydd â hyfforddiant hylendid bwyd cyfredol, felly mae'n goruchwylio'r holl waith trin bwyd.

Yn ddiweddar iawn, mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r gwasanaeth ac adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad yn nodi cryfderau, meysydd i'w datblygu ac yn adlewyrchu barn rhieni a'r plant. Er enghraifft, dywedodd y plant eu bod yn caru archarwyr, felly prynwyd gwisgoedd archarwyr.

Mae'n anodd asesu'n gywir effeithiolrwydd rheolaeth staff ac adnoddau ers cofrestru, gan fod personél/systemau newydd ar waith. Mae'r person â gofal wedi cael cyfarfodydd goruchwylio ag aelod o'r pwyllgor fel rhan o'i gyfnod sefydlu. Nid yw'r aelod mwyaf newydd o staff wedi derbyn goruchwyliaeth ffurfiol eto, er bod dyddiad wedi'i gynllunio ar gyfer yr hanner tymor nesaf. Mae'r holl staff yn canmol y gefnogaeth a geir ar hyn o bryd. Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gwasanaeth a ddarperir gan ddweud eu bod yn dawel eu meddwl ac yn gwybod bod eu plant yn ddiogel ac yn hapus wrth fynychu.

| **Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol** |
|---|

A1. Sicrhau bod pob aelod o staff yn mynychu hyfforddiant diogelu sy'n berthnasol i'w rôl yn y lleoliad a'u bod yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau unigol o ran amddiffyn plant

A2 Gweithredu ffurflen bryderon a ffurflen anafiadau sydd eisoes yn bodoli i gofnodi unrhyw wybodaeth berthnasol

A3. Sefydlu system i fonitro a gwerthuso damweiniau a digwyddiadau

A4. Gweithredu polisi/system gwaith allweddol

A5. Adolygu pob asesiad risg a phob polisi a gweithdrefn o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys diweddaru'r polisi ynghylch plant ag anghenion dysgu ychwanegol

A6. Ymgorffori system ffurfiol i gynllunio gweithgareddau a monitro datblygiad y plant

A7. Sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol ar gael i'w hadolygu ar y safle yn ystod arolygiad.

| **Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio** | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |

| | |
|---|---|
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| Ni chyflawnwyd | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| **Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf.  Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| **Sgoriau** | **Ystyr y sgoriau** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o |

| | |
|---|---|
| | ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau ac sydd heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 30/06/2022